Live Fear Free Helpline
Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru

0808 80 10 800

MAE PLANT YN BWYSIG
CHILDREN MATTER

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

## Grŵp Trawsbleidiol Trais yn erbyn Menywod a Phlant

---

## 'Trais yn erbyn Menywod: Strategaeth Newydd i Gymru'

**Noddir gan Bethan Jenkins AC a Mark Isherwood AC**
**5ed Hydref 2016, 6pm-8pm**
**Ystafell Bwyllgora 21, Ty Hywel, Bae Caerdydd**

---

**Yn bresennol:**
Bethan Jenkins AC (Cyd-gadeirydd)
Mark Isherwood AC (Cyd-gadeirydd)
Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.
John Griffiths AC
Gwendolyn Sterk – Cymorth i Ferched Cymru (cofnodion)
Rhian Bowen Davies – Cynghorwr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
Eleri Butler – Cymorth i Ferched Cymru
Ellen Jones – UCM Cymru
Joy Dument - Stepping Stone
Jane Ruthe - RASASC
Bernie Bowen-Thomas – Cymru Ddiogelach
Mair Rigby - WEN Cymru
Yr Athro Emma Renold – Prifysgol Caerdydd
Gwilym Roberts - Relate Cymru
Sarah Thomas - Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched
Jan Pickles – Bwrdd Diogelu Cenedlaethol
Amy – Goroeswr
Mutale Merrill – BAWSO

| Cofnodion |
| --- |
| **Y Grŵp Trawsbleidiol yn ethol Cadeiryddion ac ysgrifenyddiaeth:**<br>Awgrymwyd Bethan Jenkins AC a Mark Isherwood AC fel cyd-gadeiryddion.<br><br>Gofynnodd Carl Sargeant a oedd yna wrthdaro buddiannau i Mark Isherwood AC gan ei fod yn Gadeirydd y grŵp trawsbleidiol Tadau a Thadolaeth. Cadarnhaodd Mark nad oedd cylch gwaith y grŵp hwnnw yn cynnwys trais domestig yn uniongyrchol. |

Cytunodd y rheini a oedd yn bresennol ar y cadeiryddion a awgrymwyd.

Awgrymwyd Cymorth i Ferched Cymru fel ysgrifenyddiaeth y grŵp. Cytunodd y rheini a oedd yn bresennol.

**Siaradwyr:**
Rhian Bowen Davies – Cynghorwr Cenedlaethol
Strategaeth sy'n gweithio i Gymru

Eleri Butler – Prif Swyddog Gweithredol, Cymorth i Ferched Cymru
Cyflwr y sector: sut dylai'r strategaeth gynorthwyo gwasanaethau arbenigol

Jane Ruthe - Cyfarwyddwr, RASASC Gogledd Cymru a Joy Dyment – Cyfarwyddwr, Stepping Stones
Ymateb y sector trais rhywiol i'r strategaeth ddrafft.

**Trafodaeth:**

1. **Strategaeth Genedlaethol:**
   Trafododd y grŵp trawsbleidiol bryderon yn ymwneud â'r strategaeth genedlaethol ac amlinellwyd y pryderon canlynol i'w codi gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

- **Gwrando ar oroeswyr**. Rhaid i'r Strategaeth weithredu argymhellion y goroeswyr trais yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y datblygiad hwn.
- **Cyllido gwasanaethau arbenigol mewn ffordd gynaliadwy.** Mae cyllido diogel, tymor hir yn angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau trais domestig a thrais rhywiol yn y trydydd sector ledled Cymru.
- **Diffiniad o drais yn erbyn menywod a gydnabyddir yn rhyngwladol.** Dylai'r Strategaeth barhau i ddefnyddio diffiniad y Cenhedloedd Unedig o drais yn erbyn menywod.
- **Canlyniadau traws-lywodraethol a phartneriaeth.** Dylai holl Adrannau'r Llywodraeth (Cyllid a Llywodraeth Leol; Iechyd, Llesiant a Chwaraeon; Amgylchedd a Materion Gwledig; Cymunedau a Phlant; yr Economi, ac Addysg) a phartneriaid allweddol fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru flaenoriaethu buddsoddiad er mwyn diogelu a rhoi cymorth i oroeswyr ac atal trais yn erbyn menywod, fel blaenoriaeth strategol trawsbynciol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.
- **Cynllun gweithredu manwl.** Mae angen datblygu cynllun gweithredu manwl, drwy ymgynghori â gwasanaethau a goroeswyr, a hynny er mwyn nodi sut y bydd cynlluniau i atal trais yn erbyn menywod yn cael eu rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf.
- **Cymorth i Blant a Phobl Ifanc.** Drwy gydol y strategaeth, hoffem weld ffocws mwy pendant ar blant. Hoffem weld amcanion clir, pendant SMART o ran y gwaith o atal, amddiffyn a chynorthwyo plant yn y strategaeth genedlaethol a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.
- **Amseru'r ymgynghoriad.** Mae'r amser a gymerwyd i ymgynghori ar y strategaeth genedlaethol yn destun pryder mawr i'r grŵp.

2. **Cynnwys lleisiau goroeswyr:**
   Gwrandawodd y grŵp ar dystiolaeth gan Amy, goroeswr trais domestig, a ddisgrifiodd ei

thaith a phwysigrwydd y cymorth arbenigol a gafodd. Trafododd y Grŵp Trawsbleidiol bwysigrwydd gwrando ar oroeswyr a chydnabod eu cyfraniad pwysig i'r grŵp. Trafodwyd y posibilrwydd o gynnwys rhagor o oroeswyr drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, megis Twitter a Facebook.

3. **Themâu ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol:**
   Trafodwyd materion perthnasol eraill y gellid eu cynnwys gan y Grŵp Trawsbleidiol, yn cynnwys addysg, dulliau atal, gwaith gyda throseddwyr a'r effaith ar ddiwygio lles. Bydd cynllun ar gyfer 2017 yn cael ei lunio a'i ddosbarthu.

**Camau gweithredu:**

1. Drafftio llythyr i Ysgrifennydd y Cabinet yn amlinellu y 5 prif bryder a nodwyd gan y grŵp o ran y strategaeth cenedlaethol a'r broses ymgynghori.
   GS i ddrafftio'r llythyr a gofyn i'r Cadeiryddion ei lofnodi.

2. Paratoi datganiad i'r wasg er mwyn tynnu sylw at bryderon y grŵp i'w gyhoeddi ochr yn ochr â tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.
   GS i ddrafftio'r datganiad a gofyn i'r Cadeiryddion ei lofnodi.

3. Edrych am gyfleoedd yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y grŵp, yn cynnwys tudalen Facebook — yn arbennig er mwyn cysylltu â goroeswyr.
   GS i ymchwilio i hyn.

4. Ystyried ehangu'r rhestr o bobl sydd wedi'u gwahodd er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys pob asiantaeth berthnasol.
   Anfon awgrymiadau at GS.

5. Y cynllun ar gyfer y cyfarfod nesaf yw edrych ar les a phosibilrwydd gwahodd Alison Thewliss AS i siarad am ei gwaith.
   GS i lunio cynllun drafft.